SUL CYFFREDIN 26

JOSUA 3:7-17; SALM 107:1-7, 33-37;
1 THESALONIAID 2:9-13; MATHEW 23:1-12

● **Gweddi agoriadol**

Dduw hollgariadus,
down ynghyd i addoli
a chymdeithasu
yn blant i ti,
i gyhoeddi dy ogoniant
yn y lle cysegredig hwn,
a cherdded gyda thi
ble bynnag y cawn ein harwain.

● **Moliant**

I ti, Arglwydd, dygwn
ein hoffrwm moliant,
i'r un sy'n clywed cri'r bobl,
sy'n dwyn rhyddhad
o gaethiwed,
ac achubiaeth
o'r llefydd anial,
sy'n dwyn o'r tir sych
ddŵr bywiol,
cynhaeaf llawnder
a geni newydd.
I ti, Arglwydd,
dygwn ein hoffrwm moliant.

● **Cyffes**

Maddau i ni, Arglwydd,
pan fydd balchder
yn fwy amlwg
na gostyngeiddrwydd;
ymddangosiad
yn bwysicach
na sylwedd;
a ffydd
yn cael ei gosod y tu ôl
i opiniwn.

Atgoffa ni yn aml
y byddai Iesu
yn byw i roi gogoniant
i ti,
dioddef a marw
drosom ni,
ac atgyfodi
er mwyn i ni gael bywyd
yn ei holl lawnder.

● Diolch

Diolch i ti am y bobl anweledig,
sy'n byw eu bywyd Cristnogol
mewn ffyrdd tawel a gwylaidd,
sy'n teimlo dros eraill,
sy'n ymarfer lletygarwch,
yn gofalu am yr anghenus,
yn ffrindiau i'r unig,
yn cynnig anogaeth,
sy'n ddibynadwy,
a chanddynt amser i wrando
ac amser i weddïo.

Diolch i ti am y bobl anweledig,
heb eu cydnabod yn aml,
y byddai dy deyrnas
yn anghyflawn hebddynt.